PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

ARHOLIADAU EXAMINATIONS

ARHOLIADAU GRADD, SEMESTER 1

IONAWR 2010

ADDYSG

PAPUR: ED32320 LANGUAGE AND GENDER

AMSER: TAIR AWR

ATEBWCH DRI CHWESTIWN

1. Cymharwch yr hyn y mae'r fframweithiau diffyg, goruchafiaeth a gwahaniaeth yn ei ddweud o ran astudiaethau iaith a rhywedd. Cloriannwch ddilysrwydd yr ymagweddau hyn.

2. Cloriannwch yn feirniadol ffenomenon ymyrraeth ieithyddol / diwygio ieithyddol a symbylwyd ac a roddwyd ar waith fel modd o hybu cydraddoldeb rhyweddol.

3. Trafodwch gysyniad lleoli pynciau drwy gyfeirio at ystyriaeth Mary Talbot o adeiladwaith ddisgyrsiol mamolaeth, gydag un enghraifft arall o'ch dewis eich hun.

4. Esboniwch a dangos pam y gellid edrych ar **NAILL AI** ystyriaeth Mary Talbot o wahanol fathau o fenywaidd-dra prynwriaethol **NEU** ddisgrifiad Jane Sunderland o ddisgyrisau wedi'u rhyweddu yn y dosbarth, fel enghraifft o gymhwyso dadansoddiad disgyrsiau beirniadol.

5. Ystyriwch a gwerthuswch sut y mae dealltwriaethau o iaith a rhywedd wedi'u cymhwyso mewn cyd-destunau addysgol yng Nghymru a Lloegr yn yr ugain mlynedd diwethaf.

6. Trafodwch rai o'r materion sydd wedi codi ynghylch rhywedd a llythrennedd yn yr ugain mlynedd diwethaf. Trafodwch yn feirniadol rai o'r ymatebion i'r mater, er enghraifft adroddiadau a chanllawiau gan lywodraeth ganolog, cyngor a roddwyd gan awdurdodau addysg lleol, neu ymchwil academaidd.

7 . Drwy gyfeirio at ddwy neu ragor o astudiaethau, trafodwch adeiladwaith ieithyddol gwahanol fathau o wrywdod.